## P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Owen, ar ôl casglu cyfanswm o XX lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Prydain - gan gynnwys Cymru - wedi elwa o wladychiaeth a chaethwasiaeth am ganrifoedd. Mae angen i hyn gael ei gynrychioli yn y cwricwlwm.

Yn aml iawn, mae'r Ymerodraeth Brydeinig yn cael ei mawrygu, ac effaith fyd-eang gwladychiaeth Prydain yn cael ei thanbrisio. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnwys a addysgir.

Mae angen newid gwirioneddol a sylweddol. Mae gwaddol caethwasiaeth a gwladychiaeth yn cael effaith wirioneddol ar gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Prydain heddiw, ac mae angen i system addysg Cymru gydnabod hyn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Clwyd
- Gogledd Cymru